Bawso



*"The main purpose to bring me to the U.K was to get a free carer as well as a free slave"*

# **Understanding Forced Marriage:** A Critical Analysis

## Summary report

Author

**Nancy Lidubwi**

*Violence Against Women Policy Manager (Bawso)*

© Copyright Bawso 2023

Foreword

# Introduction

Violence against women is a form of gender-based violence (GBV) that historically is a construct of unequal power relations and systemic gender-based discrimination, within a highly male -dominated patriarchal society with misogynistic views on women.

Women and girls are at increased risk of experiencing domestic violence (DV), forced marriage, so-called Honour-Based Abuse (HBA), and other forms of violence compared to men on a ratio of one to four. Globally, approximately 736 million women (representing 1 in 3 women and girls) experience physical or sexual violence in their entire lifetime which is perpetrated by an intimate partner (UN Women, 2020). In 2016, it was estimated that 15.4 million people were living in forced marriages, of which, 88% were women and girls (APIGBV, 2017).

In England and Wales, between 2019-2021, the Forced Marriage Unit (FMU), reported receiving 1,080 calls from women seeking advice and support. These figures represented 80% of all calls received from women compared to 262 (19%) received from men (FMU, 2021).

There were 2,383 honour-based abuse (HBA) related cases recorded by the UK police forces in 2020 and 2,725 cases recorded in 2021 (Home Office, 2022). Statistics also show that 12-15 honour killings are reported in the UK every year (Halo project, data accessed on 08/05/2023).

The majority of inquiries to FMU were from London with 61 callers representing 20% of all calls received, West Midlands with 57 callers at 19%, Northwest with 49 callers representing 16% while 6 individuals made the call from Wales representing only 2% of the total calls received.

According to the FMU, cases represented 25 from focus countries which included Pakistan at the top with 147 cases (49%); Bangladesh with 41 cases representing 14%; India with 20 cases at 7%; Afghanistan with 9 cases at 3% and Iraq with 7 cases at 2%. It is also indicated that 78% of all the cases received and recorded were residing in the UK at the time the calls were received (FMU, 2022).

Analysis of Bawso's internal data showed that 29 women who identified as victims of forced marriage were supported in 2018/2019 and 4 women identified as victims of forced marriage, and 23 victims of HBV were supported in 2019/2020.
In 2020/2021, Bawso supported 7,446 persons of which 5 were victims of forced marriage and 35 were victims of HBV.
In 2021/2022 Bawso supported 7,826 persons out of which 6 women identified themselves as victims of forced marriage and 24 women as victims of HBV.





# Focus of the research

The research focussed on forced marriage and honour-based violence (HBV) that takes place within BME communities in Wales.

## The research sought to:

- Gain an in-depth understanding of the ideologies behind forced marriage and HBV.
- Identify individuals behind 'multiple perpetration' with the aim of directing prevention programmes and tackling perpetrations at all levels.
- Understand the role that culture and religion play in amplifying forced marriages and HBV against women.

The experiences of victims that which the research draws upon were predominantly women, while the perpetrators were men. Focussing on the victim's perspective and experience rather than a perpetrator's position was with the aim of avoiding empowering perpetrators to orchestrate violence and find justification for it.

## Methodology

**Participatory engagement**

Focus group discussions with Bawso frontline staff and Bawso service users.

**Survey questionnaire**

**Secondary souces**

Literature review, news articles, analysis of Bawso ex-service users' case studies.

# Summary of findings

**49**
**Participation**

A total of 49 people participated, (includes Bawso frontline support workers and ex-service users).

**33**
**Case studies**

We reviewed and analysed 33 case studies from ex-service users who were supported by Bawso between 2018 and 2022.

**MEDIA**

We also analysed cases of forced marriage and HBV that took place in the UK as reported by the media (BBC, the Guardian and the Independent).

**3**
**Police**

Three police and crime commissioners' offices responded to questionnaires. These include North Wales PCC, South Wales PCC, and Gwent PCC.



# Key themes and recomendations

## Extent of violence

We found that women were subjected to extreme forms of violence and threats were used to force them into submission. Forms of violence included arson attacks, acid burning, forced suicide, physical abuse, threats to kill and murder. Others included forced abortion, honour killings, abduction, the threat of abandonment and being disowned, drugged, and imprisoned in their homes to stop them from fleeing forced marriages.

A significant proportion of some of the survivors who were supported by Bawso as victims of domestic abuse, identified themselves as being also victims of controlling and coercive behaviour, forced marriage, HBV and in some cases, modern slavery.

**LACK OF KNOWLEDGE AND UNDERSTANDING, AND ITS IMPACT**

## Support agencies

We found that there was a lack of knowledge and understanding regarding forced marriage, HBV and support that a victim may require amongst statutory agencies. In addition, disbelief of threats to kill amongst such agencies meant that victims were reluctant to disclose, or report abuse due to fear of the consequences if not supported.

## Victims/survivors

Barriers to disclosing and reporting abuse were many and highlighted in over 50% of cases. These included a lack of understanding of the UK support system amongst victims, language barriers, fear of authority, fear of being deported if they reported the abuse and insecure immigration status including no recourse to public funds (NRPF).

Additional barriers faced by victims included financial dependence on perpetrators, fear of not being believed by supporting agencies, and fear of threats from their own family members as well as threats to their family members by perpetrators.

## Communication

There was a lack of clarity from agencies on how and where victims could seek help from. Further difficulties were highlighted with regards to understanding the language and terminology used within the violence against women, domestic abuse and sexual violence (VAWDASV) sector. For example, domestic abuse, victim, helpline, live fear free helpline etc. Simple and clear messages such as, 'Do you need help?', 'Call for free', were recommended as clear forms of communication.

PERPETRATION

## Female perpetration

We analysed 33 case studies from Bawso service users, and the data was triangulated with England. We also obtained oral testimony from the BME community and concluded that in approximately 70% of HBV cases, relatives such as mother in–law and sister in–law had some involvement.

## Wider family perpetration

Our findings also highlighted the involvement of other perpetrators who included father in-law, husbands, victim's brothers and male and female in-laws.

## Inter-generational perpetration

From our findings, we concluded that inter-generational perpetration was taking place and it often continued through generations.

WHY SHOULD SHE HAVE IT EASY?

## The Community

Community informers included shop owners, restaurant owners, taxi drivers and people from the same ethnic background and religion. These may identify a victim escaping and return them back home or inform the family as reported by Enabling Change Rebuilding Lives (EACH, 2012).

Others included professionals such as social workers and the police who may have access to critical information on the victim (Dyer, 2015).

## Bounty hunters

Bounty hunters are often hired by families to track down victims who have escaped from the family and take them back to the perpetrators families'. We heard that bounty hunters gather intelligence on the whereabouts of victims. They often collude with professionals from the same community who can access victim files, for example, social services and the police to reveal information on the victim's whereabouts ((Dyer, 2015).

Bounty hunters may also use their own intelligence to investigate the whereabouts of a victim (EACH, 2012).

## Culture and religion

Religion in its functional state is used by communities to amplify what is considered good or bad conduct and the punishment that accompanies rebellion or breaking of the honor code.

We heard that families often use culture and religion to propagate and affirm masculine doctrines of dominance and submission.

For example, society encourages men to be dominant and women to submit enabling men to maintain their power (Smith et al, 2015). The social ostracization that takes place is also a product of cultural and religious beliefs.





# Recommendations

- There is a need for agencies to adopt a renewed commitment to understanding and tackling forced marriage and HBV.
- A need for comprehensive end - to - end support by agencies from the point when an incident has been reported to when the survivor no longer requires direct support regardless of their immigration status.
- Sustained community engagement to challenge and address harmful cultural practices.
- Continued funding support for organisations that address complex, diverse and intersecting needs of victims.
- Ongoing dialogue on how we can use culture and religion positively to protect women and girls.

## References


UN Women. Facts and figures: Ending violence against women. Available at: https://www.unwomen.org/en/what-we-do/ending-violence-against-women/facts-and-figures - accessed on 13/01/2023.

'Honour Based Violence' in the UK by Halo project. Available at: https://www.haloproject.org.uk/honour-based-violence-W21page - accessed on 08/05/2023.

https://karmanirvana.org.uk/data/external-data-insights - accessed on 10/05/2023.

Home office, October 2022; statistics on so called "honour- based" abuse offences, England and Wales, 2021-2022 available at: https://www.gov.uk/government/statistics/statistics-on-so-called-honour-based-abuse-offences-england-and-wales-2021-to-2022/statistics-on-so-called-honour-based-abuse-offences-england-and-wales-2021-to-2022 - accessed on 03/04/2023.

Asian Pacific Institute on Gender Based violence (apigbv, 2017) - available at: https://www.api-gbv.org/about-gbv/types-of-gbv/forced-marriage/ - accessed on 14/12/2022.

Forced marriage Unit Statistics 2021 (FMU, 2022) available at: https://www.gov.uk/government/statistics/forced-marriage-unit-statistics-2021/forced-marriage-unit-statistics-2021 - accessed on 30/06/2023.

Forced Marriage Unit Statistics 2022 (FMU, 2023) available at: https://www.gov.uk/government/statistics/forced-marriage-unit-statistics-2022/forced-marriage-unit-statistics-2022 - accessed on 30/06/2023.




©Bawso 2023 - Not to be reproduced without the author's permission.

Referrals: **helpline@bawso.org.uk**
General enquiries: **info@bawso.org.uk**
**www.bawso.org.uk**

## Contact your nearest Bawso office

Support is provided in different languages if required


### Cardiff

Unit 4 Sovereign Quay,
Havannah Street
Cardiff
CF10 5SF
02920 644633

### Newport

St Woolos Road,
Baneswell,
Newport
NP20 4GN
01633 213213

### Swansea

2nd Floor,
35-36 Singleton Street
Swansea
SA1 3QN
01792 642003

### Merthyr

Teulu Mac,
47-48 Pontmorlais West
Merthyr Tydfil
CF47 8UN
01685 375394

### Wrexham

One Stop Shop,
33 Grosvenor Road
Wrexham
LL11 1BT
01978 355818

Email us at:
info@bawso.org.uk



Charity Commission No. 1084854 I Company No. 03152590



*"Prif bwrpas dod â mi i'r DU oedd i gael gofalwraig a chaethes am ddim"*

# **Deall priodas dan orfod:** Dadansoddiad beirniadol

## Adroddiad cryno


Awdur

**Nancy Lidubwi**

*Rheolwr Polisi Trais yn Erbyn Menywod (Bawso)*


© Hawlfraint Bawso 2023

Rhagair

# Cyflwyniad

Mae trais yn erbyn menywod yn fath o drais ar sail rhywedd sydd, yn hanesyddol, yn deillio o gysylltiadau pŵer anghyfartal a gwahaniaethu systemig ar sail rhywedd, o fewn cymdeithas batriarchaidd wedi'i dominyddu'n sylweddol gan ddynion, sydd â safbwyntiau gwreig-gasol.

Mae menywod a merched yn wynebu risg uwch o brofi trais domestig, priodas dan orfod, yr hyn a elwir yn gam-drin ar sail anrhydedd a ffurfiau eraill ar drosedd o gymharu â dynion, mewn cymhareb o un i bedwar. Yn fyd-eang, mae tua 736 miliwn o fenywod (sy'n cynrychioli 1 o bob 3 merch a menyw) yn profi trais corfforol neu rywiol sydd wedi'i gyflawni gan bartner agos yn ystod eu bywyd (Menywod y Cenhedloedd Unedig, 2020).. Yn 2016, amcangyfrifwyd bod 15.4 miliwn o bobl yn byw o fewn priodasau dan orfod, ac o'r rheiny, roedd 88% yn fenywod a merched (APIGBV, 2017).

Yng Nghymru a Lloegr, rhwng 2019 a 2021, adroddodd yr Uned Priodasau dan Orfod ei bod wedi derbyn 1,080 o alwadau gan fenywod yn ceisio cyngor a chymorth. Mae'r ffigyrau hyn yn cynrychioli 80% o'r holl alwadau a gafwyd gan fenywod, o'i gymharu â 262 (19%) a gafwyd gan ddynion (Uned Priodasau dan Orfod, 2021).

Cofnodwyd 2,383 achos cysylltiedig â cham-drin ar sail anrhydedd gan heddluoedd y DU yn 2020, a 2,725 o achosion yn 2021 (Y Swyddfa Gartref, 2022). Mae ystadegau hefyd yn dangos bod 12-15 achos o ladd ar sail anrhydedd yn cael eu hadrodd yn y DU bob blwyddyn (Prosiect Halo, cyrchwyd y data ar 08/05/2023)

Daeth y mwyafrif o'r ymholiadau i'r Uned Priodasau dan Orfod o Lundain, gyda 61 galwr yn cynrychioli 20% o'r holl alwadau a dderbyniwyd, Gorllewin Canolbarth Lloegr gyda 57 galwr yn cynrychioli 19%, Gogledd-orllewin Lloegr gyda 49 galwr yn cynrychioli 16%, ac yna 6 unigolyn yn gwneud galwad o Gymru yn cynrychioli 2% yn unig o gyfanswm y galwadau a gafwyd.

Yn ôl yr Uned Priodasau dan Orfod, roedd achosion yn cynrychioli 25 o wledydd ffocws, a oedd yn cynnwys Pacistan ar y brig gyda 147 o achosion (49%); Bangladesh gyda 41 o achosion yn cynrychioli 14%; India gydag 20 achos yn cynrychioli 7%; Affganistan gyda 9 achos yn cynrychioli 3% ac Irac gyda 7 achos yn cynrychioli 2%. Roedd hefyd yn dangos bod 78% o'r holl achosion a dderbyniwyd ac a gofnodwyd yn preswylio yn y DU pan dderbyniwyd yr alwad (Uned Priodasau dan Orfod, 2022).

Roedd dadansoddiad o ddata mewnol Bawso yn dangos bod 29 menyw a oedd yn datgan eu bod yn ddioddefwyr priodas dan orfod wedi cael eu cynorthwyo yn 2018/2019, a bod 4 menyw a oedd yn datgan eu bod yn ddioddefwyr priodas dan orfod, a 23 o ddioddefwyr trais ar sail anrhydedd wedi cael eu cynorthwyo yn 2019/2020. Yn 2020/2021, bu i Bawso gynorthwyo 7,446 o bobl, gyda 5 yn ddioddefwyr priodas dan orfod a 35 yn ddioddefwyr trais ar sail anrhydedd. Yn 2021/2022, bu i Bawso gynorthwyo 7,826 o bobl, gyda 6 menyw yn datgan eu bod yn ddioddefwyr priodas dan orfod a 24 menyw yn datgan eu bod yn ddioddefwyr trais ar sail anrhydedd.





# Ffocws yr Ymchwil

Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar briodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd sy'n digwydd o fewn cymunedau BME yng Nghymru.

## Nod yr ymchwil oedd:

- Ennill dealltwriaeth fanwl o'r ideolegau y tu ôl i briodasau dan orfod a thrais ar sail anrhydedd.
- Amlygu unigolion sydd y tu ôl i 'gyflawni lluosog' gyda'r nod o gyfeirio rhaglenni atal a mynd i'r afael â chyflawnwyr ar bob lefel.
- Deall rôl diwylliant a chrefydd wrth gynyddu priodasau dan orfod a thrais ar sail anrhydedd yn erbyn menywod.

Roedd profiadau'r dioddefwyr y mae'r ymchwil yn seiliedig arnynt yn rhai menywod yn bennaf, a dynion oedd y cyflawnwyr. Y bwriad wrth ganolbwyntio ar safbwynt a phrofiad y dioddefwr yn hytrach na safbwynt y cyflawnwr oedd osgoi grymuso cyflawnwyr i gynllunio trais a chael cyfiawnhad dros y trais.

## Methodoleg

**Ymgysylltu cyfranogol**

Trafodaethau grŵp ffocws gyda staff rheng flaen Bawso a defnyddwyr gwasanaeth Bawso.

**Holiadur arolwg**

**Ffynonellau eilaidd**

Adolygiad llenyddiaeth, erthyglau newyddion, dadansoddi astudiaethau achos cyn-ddefnyddwyr gwasanaeth Bawso.

# Crynodeb o'r canfyddiadau

**49**
**Cyfranogiad**

Cymerodd gyfanswm o 49 o bobl ran (gan gynnwys gweithwyr cymorth rheng flaen Bawso a chyn-ddefnyddwyr gwasanaeth).

**33**
**Astudiaethau achos**

Gwnaethom adolygu a dadansoddi 33 o astudiaethau achos gan gyn-ddefnyddwyr gwasanaeth a gafodd gefnogaeth gan Bawso rhwng 2018 a 2022.

**CYFRYNGAU**

Gwnaethom hefyd ddadansoddi achosion o briodasau dan orfod a thrais ar sail anrhydedd a ddigwyddodd yn y DU yn ôl y cyfryngau (BBC, the Guardian a the Independent).

**3**
**Heddlu**

Ymatebodd swyddfeydd tri Chomisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) i holiaduron. Roedd y rhain yn cynnwys CHTh Gogledd Cymru, CHTh De Cymru, a CHTh Gwent.



# Argymhellion a themâu allweddol

## Graddau'r trais

Canfuom fod menywod yn destun mathau eithafol o drais a bod bygythiadau wedi'u defnyddio i'w gorfodi i ymostwng. Roedd y mathau o drais yn cynnwys ymosodiadau tân bwriadol, llosgi ag asid, hunanladdiad dan orfod, cam-drin corfforol, bygythiadau i ladd a llofruddio. Roedd eraill yn cynnwys erthyliad dan orfod, lladd ar sail anrhydedd, cipio, bygwth gadael a diarddel, rhoi cyffuriau, a charcharu yn eu cartrefi er mwyn eu hatal rhag ffoi rhag priodasau dan orfod.

Roedd cyfran sylweddol o rai o'r goroeswyr a gafodd gefnogaeth gan Bawso fel dioddefwyr cam-drin domestig, yn dweud eu bod hefyd wedi dioddef ymddygiad sy'n rheoli a chymell, priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac, mewn rhai achosion, caethwasiaeth fodern.

**DIFFYG GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH, AC EFFAITH HYNNY**

## Asiantaethau cymorth

Canfuom fod diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd, a chymorth y gall fod ei angen ar ddioddefwr ymysg asiantaethau statudol. Yn ogystal â hyn, roedd amharodrwydd i gredu bod bygythiadau i ladd wedi digwydd ymysg asiantaethau o'r fath yn golygu bod dioddefwyr yn amharod i ddatgan, neu adrodd ar gamdriniaeth oherwydd eu bod yn ofni'r canlyniadau pe na fyddent yn cael cefnogaeth.

## Dioddefwyr/Goroeswyr

Roedd sawl rhwystr rhag datgan ac adrodd am gam-drin wedi eu hamlygu mewn dros 50% o achosion.. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg dealltwriaeth o system gymorth y DU ymysg dioddefwyr, rhwystrau iaith, ofni awdurdod, ofni cael eu hallgludo pe byddent yn adrodd am y cam-drin, a statws mewnfudo ansefydlog - gan gynnwys dim hawl i gyllid cyhoeddus.

Roedd rhwystrau ychwanegol a wynebwyd gan ddioddefwyr yn cynnwys dibyniaeth ariannol ar gyflawnwyr y troseddau, ofni na fyddai asiantaethau cymorth yn eu credu, ac ofni bygythiadau gan aelodau eu teuluoedd eu hunain, yn ogystal â bygythiadau cyflawnwyr y drosedd i'w teuluoedd.

## Cyfathrebu

Roedd diffyg eglurder gan asiantaethau ynghylch sut a ble y gallai dioddefwyr geisio cymorth. Amlygwyd anawsterau pellach mewn perthynas â deall yr iaith a'r termau a ddefnyddir o fewn y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Er enghraifft, cam-drin domestig, dioddefwr, llinell gymorth, llinell gymorth byw heb ofn etc. Argymhellwyd negeseuon clir a syml fel; 'Wyt ti angen help?', 'Ffonia am ddim', fel ffyrdd clir o gyfathrebu.

## CYFLAWNI

### Menywod yn cyflawni

Dadansoddwyd 33 astudiaeth achos gan ddefnyddwyr gwasanaeth Bawso, a thrionglwyd y data gyda Lloegr. Cafwyd tystiolaeth lafar hefyd gan y gymuned BME a daethpwyd i'r casgliad fod perthnasau megis mam yng nghyfraith a chwaer yng nghyfraith yn chwarae rhan mewn oddeutu 70% o achosion o drais ar sail anrhydedd.

### Y teulu ehangach yn cyflawni

Roedd ein canfyddiadau hefyd yn amlygu cyflawnwyr eraill yn cymryd rhan, gan gynnwys tadau-yng-nghyfraith, gwŷr, brodyr y dioddefwr, a menywod a dynion o'r teulu yng nghyfraith.

### Cyflawni ar draws cenedlaethau

O'n canfyddiadau, casglwyd bod cyflawni ar draws cenedlaethau yn digwydd ac yn aml mae'n parhau drwy'r cenedlaethau.

**PAM DDYLAI HI EI CHAEL HI'N HAWDD?-GOROESWR 23 OED.**

### Y Gymuned

Roedd hysbyswyr cymunedol yn cynnwys perchnogion siop, perchnogion bwyty, gyrwyr tacsi a phobl o'r un cefndir ethnig a chrefydd. Gall y rhain adnabod dioddefwr yn dianc a mynd â nhw'n ôl gartref neu roi gwybod i'r teulu, fel yr adroddwyd gan Enabling Change Rebuilding Lives (EACH, 2012).

Roedd eraill yn cynnwys gweithwyr proffesiynol megis gweithwyr cymdeithasol a'r heddlu a all fod â'r hawl I wybodaeth hanfodol am y dioddefwr (Dyer, 2015).

### Helwyr bownti

Mae teuluoedd yn aml yn llogi helwyr bownti i ddod o hyd i ddioddefwyr sydd wedi dianc oddi wrth y teulu a mynd â nhw'n ôl at deulu'r cyflawnwr. Clywsom fod helwyr bownti'n caglu gwybodaeth ar leoliad y dioddefwyr. Maent yn aml yn cynllwynio gyda gweithwyr proffesiynol o'r un gymuned sy'n gallu cael yr hawl i ffeiliau'r dioddefwyr, er enghraifft, y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu, i ddatgelu gwybodaeth ar leoliad y dioddefwr (Dyer, 2015).

Gall helwyr bownti ddefnyddio eu gwybodaeth eu hunain hefyd i ymchwilio i leoliad dioddefwr (EACH 2012).

### Diwylliant a chrefydd

Caiff crefydd, ar ei ffurf weithredol, ei ddefnyddio gan gymunedau i bwysleisio'r hyn a ystyrir i fod yn ymddygiad da neu ymddygiad gwael, a'r gosb sydd ynghlwm â gwrthryfela neu dorri'r cod anrhydedd.

Clywsom fod teuluoedd yn aml yn defnyddio diwylliant a chrefydd i ledaenu a chadarnhau dysgeidiaethau gwrywaidd o ddominyddiaeth ac ymostyngiad.

Er enghraifft, mae cymdeithas yn annog dynion i ddominyddu a menywod i ymostwng gan alluogi dynion i gynnal eu grym (Smith et al. 2015). Mae'r diarddel cymdeithasol sy'n mynd rhagddo hefyd yn codi o achos credoau crefyddol a diwylliannol.

# Argymhellion

- Mae yna angen i asiantaethau fabwysiadu ymrwymiad o'r newydd i ddeall a mynd i'r afael â phriodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd.
- Angen am gymorth cynhwysfawr o'r dechrau i'r diwedd gan asiantaethau o'r pwynt pan adroddir am ddigwyddiad hyd at pan nad yw'r dioddefwr bellach angen cymorth uniongyrchol waeth beth fo'u statws mewnfudo.
- Ymgysylltu cymunedol parhaus i herio a mynd i'r afael ag arferion diwylliannol niweidiol.
- Cymorth ariannol parhaus i sefydliadau sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymhleth, amrywiol a chroestoriadol dioddefwyr.
- Deialog barhaus ar sut y gallwn ddefnyddio diwylliant a chrefydd mewn ffordd gadarnhaol i ddiogelu menywod a merched.

## Cyfeiriadau


Menywod y Cenhedloedd Unedig Facts and figures: Ending violence against women. Ar gael yn: https://www.unwomen.org/en/what-we-do/ending-violence-against-women/facts-and-figures - cyrchwyd ar 13/01/2023.

'Honour Based Violence' yn y DU gan brosiect Halo. Ar gael yn: https://www.haloproject.org.uk/honour-based-violence-W21page - cyrchwyd ar 08/05/2023.

https://karmanirvana.org.uk/data/external-data-insights - cyrchwyd ar 10/05/2023.

Y Swyddfa Gartref, Hydref 2022; ystadegau ar yr hyn a elwir yn droseddau "ar sail anrhydedd", Cymru a Lloegr, 2021-2022 ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/statistics-on-so-called-honour-based-abuse-offences-england-and-wales-2021-to-2022/statistics-on-so-called-honour-based-abuse-offences-england-and-wales-2021-to-2022 - cyrchwyd ar 03/04/2023.

Asian Pacific Institute on Gender Based violence (apigbv, 2017) - ar gael yn: https://www.api-gbv.org/about-gbv/types-of-gbv/forced-marriage/ - cyrchwyd ar 14/12/2022.

Ystadegau'r Uned Priodas dan Orfod 2021 (2022) ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/forced-marriage-unit-statistics-2021/forced-marriage-unit-statistics-2021 - cyrchwyd ar 30/06/2023.

Ystadegau'r Uned Priodas dan Orfod 2022 (2023) ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/forced-marriage-unit-statistics-2022/forced-marriage-unit-statistics-2022 - cyrchywd ar 30/06/2023




©Bawso 2023 - Ni ddylid ei atgynhyrchu heb ganiatâd yr awdur.

Atgyfeiriadau: **helpline@bawso.org.uk**
Ymholiadau cyffredinol: **info@bawso.org.uk**
**www.bawso.org.uk/cy**

## Cysylltwch â'ch swyddfa Bawso agosaf

Darperir cymorth mewn gwahanol ieithoedd os oes angen

**Caerdydd**
Unit 4 Sovereign Quay,
Havannah Street
Caerdydd
CF10 5SF
02920 644633

**Casnewydd**
St Woolos Road,
Baneswell,
Casnewydd
NP20 4GN
01633 213213

**Abertawe**
2nd Floor,
35-36 Singleton Street
Abertawe
SA1 3QN
01792 642003

**Merthyr**
Teulu Mac,
47-48 Pontmorlais West
Merthyr Tudful
CF47 8UN
01685 375394

**Wrecsam**
One Stop Shop,
33 Grosvenor Road
Wrecsam
LL11 1BT
01978 355818

Ebost:
info@bawso.org.uk

Comisiwn Elusennol Rhif 1084854 I Cwmni Rhif 03152590